| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **25 MEDI 2014** |
| TEITL: | **RHEOLI TRYSORLYS 2013/14** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod 2013/14 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, £399,757 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau sydd yn llai na'r £555,980 a oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

**1. Cyflwyniad a Chefndir**

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 1 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheoli trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Ystyrir mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad ar gyfer 2013/14 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2013 ar gyfer y flwyddyn ariannol (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28/02/2013). Edrycha'r adroddiad ar:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthyca a rheoli dyledion;
- gweithgarwch buddsoddi; a
- chydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus.

Tanategir gweithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor gan God Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ("y Cod), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu Dangosyddion Darbodus a Datganiad Strategol Rheoli Trysorlys ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cod hefyd yn argymell y dylid hysbysu aelodau ynghylch gweithgareddau rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Dirprwyir craffu polisi, strategaeth a gweithgarwch y trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad hon yn cyflawni dyletswydd y Cyngor o dan Deddf Llywodraeth Leol 2003 i cymryd ystyriaeth o'r Cod CIPFA a'r Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

**Y Cefndir Economaidd**: Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2013-14, roedd marchnadoedd yn bryderus am dwf dilewyrch yn Ardal yr Ewro, y DU a Siapan. Roedd diffyg twf yn economi'r DU, y bygythiad o 'ddirwasgiad triphlyg' ochr yn ochr â gwir gyflogau'n gostwng (h.y. ar ôl chwyddiant) a phrinder buddsoddiad gan fusnesau yn bryder i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr. Dau economi mawr yn unig – yr UD a'r Almaen – oedd â thwf uwchlaw lefelau cyn yr argyfwng ariannol, ond roedd y rhain yn dal yn is na'r duedd. Roedd Ardal yr Ewro wedi gwneud ei ffordd drwy gyfnod cythryblus i'w gwledydd sofren gwasgaredig ac roedd y tebygolrwydd o gwymp afreolus tymor agos wedi lleihau'n sylweddol. Roedd llywodraeth yr UD newydd lwyddo i osgoi'r graig ariannol a diffyg technegol ar ddechrau 2013, ond ailymddangosodd y broblem eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Gyda Mark Carney, y Llywodraethwr newydd wrth y llyw, dadorchuddiodd Banc Lloegr flaen ganllawiau ym mis Awst yn addo peidio ag ystyried codi cyfraddau llog hyd nes y byddai cyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn disgyn yn is na'r trothwy o 7%. Dim ond yn 2016 y disgwyliwyd i'r lefel hon gael ei chyrraedd yn rhagolwg cychwynnol y Banc. Er bod y Banc wedi pwysleisio mai ***trothwy*** oedd y lefel hon i ystyried codi cyfradd yn hytrach na sbardun awtomatig, dechreuodd marchnadoedd brisio cynnydd llawer cynt na'r hyn oedd wedi'i warantu ac, o ganlyniad, cododd enillion gilt yn sydyn iawn.

Cafwyd syndod yn adferiad y DU gyda gweithgarwch a thwf economaidd cryf. Dangosodd Cynnyrch Mewnwlad Crynswth (GDP) Ch4 2013 dwf o flwyddyn i flwyddyn o 2.7%. Y sector gwasanaeth dominyddol fu'r rheswm am y mwyafrif o'r gwelliant hwn, ynghyd â chynnydd mewn treuliant aelwydydd a gynhaliwyd gan y cynnydd mewn trafodion tai a oedd yn cael eu gyrru gan fwy o hyder gan gwsmeriaid, mwy o argaeledd credyd a phrisiau tai yn cryfhau a gafodd eu hybu'n rhannol gan fentrau gan y llywodraeth megis Cymorth i Brynu. Fodd bynnag, nid oedd buddsoddiad gan fusnesau wedi adfer yn argyhoeddiadol eto ac ni chafwyd twf cynhyrchedd ystyrlon gyda'r adferiad. Lleddfwyd pryderon ynglŷn â '*housing bubble*' gan dystiolaeth bod benthyg morgeisi net yn cynyddu o ddim ond 1% bob blwyddyn.

Gostyngodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 2.8% ym mis Mawrth 2013 i 1.7% ym mis Chwefror 2014, y gyfradd isaf ers mis Hydref 2009. Yr hyn a fu'n gymorth mawr i hyn oedd manwerthwyr yn lleihau prisiau nwyddau ac yn disgowntio, oedd yn lleihau'r pwysau ar y Banc i godi cyfraddau. Er y bu'r gostyngiad mewn diweithdra (lawr o 7.8% ym mis Mawrth 2013 i 7.2% ym mis Ionawr 2014) yn gyflymach na'r hyn oedd Banc Lloegr – a sawl dadansoddwr hyd yn oed – wedi'i ragweld, roedd yn cuddio lefel uwch o dangyflogaeth. Mae'n bwysig nodi bod twf enillion cyfartalog wedi aros yn dawel a bod gwir dwf cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) yn negyddol. Ym mis Chwefror, newidiodd y Banc o ddilyn blaen ganllawiau i ddibynnu ar ddangosydd unigol – y gyfradd diweithdra – i fesurau mwy cymhleth oedd yn cynnwys capasiti ychwanegol o fewn yr economi. Yn ogystal, awgrymwyd gan y Banc pan fyddai cyfraddau llog swyddogol yn codi y byddai codiadau yn digwydd yn raddol – bu hyn yn gymorth i danategu'r rhagolwg cyfradd llog 'is am gyfnod hirach' er gwaethaf y momentwm yn yr economi.

Mae rhagolwg Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb o 2.7% am dwf economaidd yn 2014 yn rhagweld gostyngiad cyflymach mewn benthyca cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, fe wnaeth y Canghellor wrthsefyll y temtasiwn i wario peth o enillion twf economaidd uwch. Yn ei Ddatganiad yn hydref 2013 a'i Gyllideb yn 2014, ar wahân i'r cynnydd yn y lwfans treth personol a newidiadau pensiwn, nid oedd dim byd arwyddocaol yn cael ei roi ffwrdd ac roedd mesurau llym y glymblaid yn parhau i fod ar y trywydd iawn.

Ym mis Mai, syfrdanwyd marchnadoedd gan gyhoeddiad Ben Bernanke, Cadeirydd y Gronfa Ffederal ar y pryd, y byddai rhaglen lliniaru meintiol (QE) y Gronfa yn arafu. Dechreuodd buddsoddwyr ystyried nid yn unig diwedd i QE ond hefyd cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog. Dechreuodd y broses o 'feinhau' (cyfradd QE yn arafu) ym mis Rhagfyr 2013. Erbyn mis Mawrth 2014, roedd y raddfa o brynu asedau wedi gostwng o $75bn i $55bn bob mis gyda'r disgwyliad y byddai QE yn dod i ben erbyn mis Hydref 2014. Roedd gan hyn oblygiadau penodol i farchnadoedd byd-eang a oedd tan hynny wedi arfer ac wedi bod ar eu hennill oherwydd lefelau uchel o hylifedd byd-eang a alluogwyd gan QE. Roedd yr effaith yn fwy na chynnydd yn y ddoler ac enillion bondiau uwch trysorlys yr UD. Cynyddodd enillion gilt hefyd o ganlyniad a dioddefodd marchnadoedd newydd – a oedd wedi bod ar eu hennill yn flaenorol wrth i fuddsoddwyr chwilota am enillion drwy asedau fwy mentrus – all-lifiadau cyfalaf mawr ym mis Rhagfyr ac Ionawr.

Gydag Ardal yr Ewro yn brwydro i ddangos twf cynaliadwy, gostyngodd Banc Canolog Ewrop (ECB) gyfraddau llog prif bolisi o 0.25% i 0.25% a'r gyfradd adnau i sero. Bu marchnadoedd yn siomedig oherwydd diffyg gweithredu gan yr ECB er gwaethaf y ffaith bod chwyddiant CPI o dan 1% a bod bygythiad o ddadchwyddiant. Roedd data yn cyfeirio at ddirywiad economaidd yn Tsieina a allai, ochr yn ochr â marchnad dai oedd yn gwanhau a sector bancio cysgodol gyda dyled uchel, fod yn heriol i'w awdurdodau.

Dwysaodd gyfeddiannaeth Rwsia o'r Wcráin ym mis Mawrth densiynau a risgiau geowleidyddol. Ymatebodd y Gorllewin drwy ddechrau gyda sancsiynau yn erbyn Rwsia, sef yr ail gynhyrchwr nwy mwyaf yn y byd ac sy'n cyflenwi bron i 30% o anghenion nwy naturiol Ewropeaidd a hefyd yn gyflenwr arwyddocaol o olew crai – byddai goblygiadau difrifol i brisiau ynni petai yna unrhyw amhariad mawr ar eu cyflenwad.

***Enillion Gilt a Chyfraddau'r Farchnad Arian:*** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr enillion gilt yn uwch na'r cychwyn ym mis Ebrill. Roedd enillion ar eu hanterth yn ystod hydref 2013. Cafwyd y cynnydd mwyaf mewn enillion giltiau 5 mlynedd a gynyddodd o bron i 1.3% o 0.70% i 1.97%. Cynyddodd enillion giltiau 10 mlynedd o bron i 1% gan ddiweddu'r flwyddyn ar 2.73%. Bu'r cynnydd yn llai amlwg ar gyfer giltiau am gyfnodau hirach; cynyddodd enillion 20 mlynedd o 2.74% i 3.37% a chynyddodd enillion 50 mlynedd o 3.23% i 3.44%.

Arhosodd cyfraddau Libid 3 mis, 6 mis a 12 mis ar lefelau islaw 1% drwy gydol y flwyddyn.

## 3. Y Gofyn Benthyca a Rheoli Dyledion

| | **Balans ar 01/04/13 £'000** | **Benthyciadau Newydd £'000** | **Dyledion Aeddfed £'000** | **Trosglwyddo i Tymor Byr £'000** | **Balans ar 31/03/14 £'000** | **Cyfradd cyfartaledd %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) | 165,924 | | | | 173,309 | |
| Benthyca Tymor Byr | 17,437 | 26 | (1,263) | (15,007) | 1,193 | 8.61 |
| Benthyca Tymor Hir | 95,811 | 397 | 0 | 15,007 | 111,215 | 5.74 |
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | **113,248** | **423** | **(1,263)** | **0** | **112,408** | 5.77 |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 29 | 2,547 | (92) | 0 | 2,484 | 6.17 |
| **CYFANSWM DYLEDION ALLANOL** | **113,277** | **2,970** | **(1,355)** | **0** | **114,892** | **5.78** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Benthyca £m | | | | | **1,615** | |

Amcangyfrifwyd bod yr angen sylfaenol i fenthyca, a fesurwyd drwy'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR), yn £173 miliwn ar 31/3/2014. Roedd cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithio, sef yr adnoddau mewnol sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau, yn £68 miliwn.

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, roedd strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion.

Ar 1 Ebrill 2013, roedd yr Awdurdod yn dal £113 miliwn o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

Disgwylia'r Cyngor y bydd angen benthyg £5 miliwn er dibenion cyfalaf erbyn 2015/16. Cafodd y buddion o fenthyca mewnol eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Cynorthwyodd Arlingclose yr Awdurdod gyda'r dadansoddiad "cost cario" hwn.

Roedd cyfanswm benthyciadau ar 31 Mawrth 2014 yn £114.9 miliwn.

Llwyddodd newidiadau yn y portffolio dyledion i gyflawni gostyngiad yn y risg credyd drwy ad-dalu dyledion gyda buddsoddiadau presennol.

## 4. Gweithgarwch Buddsoddi

Mae Canllawiau CIPFA a Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog gan ystyried sefydlogrwydd a hylifedd y buddsoddiad yn hytrach na'r enillion gorau posibl.

| Gwrthbarti Buddsoddi | Balans ar 01/04/13 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £'000 | Balans ar 31/03/14 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu - Tymor Byr | 35,629 | 208,200 | (216,746) | 27,083 | 0.63 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **35,629** | **208,200** | **(216,746)** | **27,083** | **0.63** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | (8,546) | |

Roedd diogelwch y buddsoddiad yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Awdurdod. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Awdurdod sydd wedi'i nodi yn ei Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2013/14 oedd yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofren o AA+ neu uwch.

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfradd sefydlog cyfnod penodol a thystysgrifau adneuon. Cyfnod hiraf y buddsoddiadau hyn oedd 12 mis yn unol â'r rhagolwg credyd cyffredinol yn ystod y flwyddyn yn ogystal ag amodau'r farchnad.

### Datblygiadau credyd a rheoli risg credyd

Cafodd ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro gan yr Awdurdod drwy gyfeirio at statws credyd; amnewid diffyg credyd (*credit default swaps*); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP a phris y cyfranddaliadau. Isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon a bennwyd gan yr Awdurdod ar gyfer strategaeth drysorlys 2013/14 oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's.

Datryswyd yr argyfwng dyledion yn Cyprus wrth i'r llywodraeth orfodi 'toriad' ar fuddsoddiadau anwarantedig ac adneuon banc dros €100,000. Mewn cyferbyniad llwyr â'r '*bail-outs*' yn ystod argyfwng ariannol 2008/2009, esgorodd y mecanwaith datrys hwn ar ysgytwad drwy Ewrop ond galluogodd rheolyddion bancio i symud ymlaen â thrawsnewid fyddai'n gorfodi colledion yn y dyfodol i fuddsoddwyr drwy '*bail-in*' cyn y byddai gofyn i drethdalwyr gefnogi banciau sy'n methu.

Cafodd Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013 Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr a oedd yn deddfu i wahanu banciau manwerthu a buddsoddi ac i gyflwyno '*bail-in*' mandadol yn y DU i ddirwyn sefydliadau ariannol sy'n methu i ben neu eu hailstrwythuro. Cytunodd gweinidogion cyllid yr UE ar gamau pellach tuag at undeb bancio, a'r Mecanwaith Datrys Unigol (SRM) ar gyfer datrys problemau gyda banciau mawr trwblus fyddai'n symud y baich o'u hailstrwythuro/hachub yn y dyfodol i gyfranddeiliaid, dalwyr bondiau a buddsoddwyr ansicredig y sefydliad.

Cyhoeddwyd cynigion hefyd i'r UE ddiwygio sut y caiff Cronfeydd Marchnad Arian eu rheoleiddio a fydd efallai yn peri i'r cronfeydd hyn gael eu symud i sail VNAV (*variable net asset value*) a cholli eu statws credyd 'AAA' yn y dyfodol.

Y newidiadau materol i deilyngdod credyd banciau'r DU oedd (a) y cynnydd cryf a wnaed gan Grŵp Bancio Lloyds i gryfhau ei fantolen, proffidioldeb a sefyllfaoedd ariannu a'r llywodraeth yn lleihau ei nifer o gyfranddaliadau yn y Grŵp i lai na 25%, (b) y cyhoeddiad gan Royal Bank of Scotland eu am greu banc gwael mewnol i gadw ei asedau â'r mwyaf o risg (roedd hyn gyfystyr ag estyniad materol o'r broses hir sefydledig o ailstrwythuro RBS, a esgorodd ar oedi pellach cyn i'r banc allu dychwelyd at broffidioldeb) a (c) colledion sylweddol yn Co-op Bank a orfododd y banc i ymgymryd ag ymarfer rheoli atebolrwydd i gynyddu mwy o gyfalaf ac ailstrwythuro dyledion oedd yn golygu tynnu dalwyr bondiau iau i mewn fel rhan o'r ailstrwythuro.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Moody fod statws hirdymor A3 Royal Bank of Scotland a NatWest Bank a statws cryfder ariannol annibynnol RBS o D+ i gael eu hadolygu er mwyn eu hisraddio ymysg pryderon ynglŷn ag effaith chwalfa bosib y banciau ar gredydwyr. Fel ymarferiad rhagofalus, gostyngodd yr Awdurdod ei hyd ar gyfer buddsoddiadau newydd gyda'r banc(iau) i dros nos. Ym mis Mawrth, israddiodd Moody's statws hirdymor y ddau fanc i Baa1. Oherwydd bod y statws hwn yn is na maen prawf isafswm credyd yr Awdurdod o A-, tynnwyd y banciau oddi ar y rhestr o wrthbartïon ar gyfer buddsoddiadau pellach.

Cafodd statysau hirdymor Co-op eu hisraddio gan Moody's a Fitch i Caa1 a B yn ôl eu trefn, gyda'r ddau yn statws gradd is-fuddsoddi. Mae cynlluniau cynyddu cyfalaf Co-op Bank er mwyn gwneud iawn am ddiffyg cyfalaf yn cynnwys cyfraniad gan y Co-op Group sydd wedi ymrwymo i roi £313m i mewn yn 2014 – ac mae £50m ohono wedi cael ei dalu i mewn hyd yma. Fodd bynnag, er mwyn ymdrin â cholledion disgwyliedig yn y dyfodol a bodloni targedau cyfalaf y '*Prudential Regulation Authority'*, mae gwaith yn mynd rhagddo i chwilio am £400m arall gan gyfranddalwyr – a chyfran y Co-operative Group ohono yw oddeutu £120m. O ystyried sefyllfa ariannol Co-op Group ei hun, nid yw talu'r symiau hyn yn sicr o bell ffordd, sy'n gadael y banc mewn sefyllfa cyfalaf ansicr.

Mae ansawdd credyd gwrthbartion y Cyngor wedi wanhau fel y dangosir gan crynodeb y Dadansoddiad Sgor Credyd isod. Mae'r tabl yn Atodiad 3 yn esbonio'r sgor credyd.

**Dadansoddiad Sgor Credyd 2013/14**

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2013 | 5.17 | A+ | 4.97 | A+ | 81 |
| 30/06/2013 | 5.18 | A+ | 5.30 | A+ | 42 |
| 30/09/2013 | 5.44 | A+ | 4.66 | A+ | 68 |
| 31/12/2013 | 5.72 | A | 5.55 | A | 110 |
| 31/03/2014 | 5.69 | A | 5.80 | A | 102 |

**Hylifedd**

Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, bu i'r Cyngor gynnal lefel ddigonol o hylifedd, £63.8m yn gyfartaledd, drwy ddefnyddio Cronfeydd Arian Marchnad, buddsoddiadau dros nos a chyfrifon ar alw. Mae'r Awdurdod yn defnyddio rhagolygon llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

**Cynnyrch**
Cynhaliwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% drwy gydol y flwyddyn. Arhosodd cyfraddau arian y farchnad tymor byr hefyd ar lefelau isel iawn a oedd yn dal i gael effaith sylweddol ar incwm buddsoddi. Cyfartaledd cyfradd LIBID 3 mis yn ystod 2013/14 oedd 0.45%, cyfartaledd cyfradd LIBID 6 mis oedd 0.53% a chyfartaledd cyfradd LIBID 1 flwyddyn oedd 0.78%. Mae cyfraddau enillion isel ar fuddsoddiadau arian marchnad cyfnod byr yr Awdurdod yn adlewyrchu amodau presennol yn y farchnad ac amcan yr Awdurdod i optimeiddio enillion sy'n gymesur ag egwyddorion diogelwch a hylifedd.

Caiff perfformiad ac addasrwydd parhaol y cronfeydd i fodloni amcanion buddsoddi'r Awdurdod eu monitro'n rheolaidd.

Amcangyfrifwyd mai incwm buddsoddiadau y mae'r Awdurdod wedi'i gyllidebu ar gyfer y flwyddyn fyddai £0.56m. Roedd y balansau arian cyfartalog sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ei falansau gweithio ac ati yn £63.8m yn ystod y cyfnod a'r llog a enillwyd oedd £0.40m.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau yn Banc Heritable.**
Bellach, mae'r awdurdod wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud unrhyw amcangyfrif o'r adenillion terfynol eto.

Cyhoeddodd CIPFA arweiniad pellach ar y dull o gyfrif y trafodion hyn ym mis Medi 2013 pan gyhoeddwyd LAAP 82 (diweddariad 8). Nid oes gan CIPFA unrhyw gynlluniau i gyhoeddi unrhyw ddiweddariadau ychwanegol.

## 5. Cydymffurfiaeth

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i **Ddangosyddion Darbodus** ar gyfer 2013/14, a gymeradwywyd ar 28 Chwefror 2013 fel rhan o Ddatganiad Polisi Rheoli Trysorlys y Cyngor (sydd ar gael trwy'r linc dilynol http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_pwyllgorau.asp?cat=7551&doc=28275&Language=2).
Gweler manylion yn Atodiad 2.

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA, mae'r adroddiad hwn yn darparu adroddiad cryno i aelodau ar weithgaredd rheoli'r trysorlys yn ystod 2013/14. Nid oes unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus wedi'u torri a defnyddiwyd dull darbodus o ran gweithgarwch buddsoddi gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros enillion.

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i **Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys** a'i **Ymarferiadau Rheolaeth Trysorlys** yn ystod 2013/14.

## 6. Eitemau Eraill

**Hyfforddiant Buddsoddi**: Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Yn ystod 2013/14, mynychodd staff gyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau wedi'u darparu gan Arlingclose a CIPFA.

**Atodiad 1**

**Sefyllfa Dyled a Buddsoddiadau 31/03/14**

| | **Gwir Portffolio 31/03/14 £m** | **Cyfradd Cyfartaledd 31/03/14 %** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau Allanol** | | |
| PWLB – Cyfradd Sefydlog | 95,294 | 6.09 |
| Salix* – Dim Llog | 914 | 0.00 |
| Benthyciadau LOBO | 16,200 | 4.22 |
| **Cyfanswm Benthyciadau Allanol** | **112,408** | **5.77** |
| **Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill** | | |
| Lesau Cyllidol | 2,484 | 6.17 |
| **Cyfanswm Dyled Allanol Gros** | **114,892** | **5.78** |
| **Buddsoddiadau** | | |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | (27,083) | (0.63) |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(27,083)** | **(0.63)** |
| **Dyled Net** | **87,809** | **7.64** |

*Cynlluniau Arbed Ynni

**Atodiad 2**

**Dangosyddion Darbodus**

## (a) Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR)

Dangosir amcangyfrif o'r gofynion benthyg allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2013/14 i 2015/16 yn y tabl isod:

| Gofyn Cyllido Cyfalaf | Awdurdod-wyd 31/03/14 £m | Adolyg-wyd 31/03/14 £m | Gwir 31/03/14 £m | Amcan-gyfrif 31/03/15 £m | Amcan-gyfrif 31/03/16 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 160.4 | 169.0 | 173.3 | 182.1 | 188.7 |

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| Dyled | Awdurdodwyd 31/03/14 £m | Adolygwyd 31/03/14 £m | Gwir 31/03/14 £m | Amcangyfrif 31/03/15 £m | Amcangyfrif 31/03/16 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 190.0 | 190.0 | 112.4 | 195.0 | 195.0 |
| Lesau Cyllidol | 0.0 | 0.0 | 2.5 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm Dyled** | **190.0** | **190.0** | **114.9** | **195.0** | **195.0** |
| **Benthycwyd mwy na'r CFR?** | Na | Na | Na | Na | Na |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

## (b) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau eraill tymor hir yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Cyllid Preifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

Mae Pennaeth yr Adran Gyllid yn cadarnhau na thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod 2013/14; cyrhaeddwyd brig o £113.2m o ran benthyca.

| | **Ffin Weithredol (Awdurdodedig) 31/03/14 £'000** | **Terfyn Benthyca (Awdurdodedig) 31/03/14 £'000** | **Gwir Dyled Allanol 31/03/14 £'000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca | 175,000 | 195,000 | 112,408 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 2,484 |
| **Cyfanswm** | **175,000** | **195,000** | **114,892** |

### (c) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd.

| | **Terfynau ar gyfer 2013/14 %** | **Uchafswm yn ystod 2013/14 %** |
|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% | 100% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydi | Ydi |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% | 0% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydi | Ydi |

### (d) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf %** | **Terfyn Isaf %** | **Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/14 £'000** | **Canran y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/14 %** | **Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 25% | 0% | **1,193** | 1.1 | Ydi |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | **199** | 0.2 | Ydi |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | **20,825** | 18.5 | Ydi |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | **8,069** | 7.2 | Ydi |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | **39,305** | 34.9 | Ydi |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | **15,464** | 13.8 | Ydi |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | **0** | 0.0 | Ydi |
| 40 mlynedd ac uwch | 100% | 0% | **27,352** | 24.3 | Ydi |

Mae'r adolygiad 2011 i'r Cod Rheolaeth Trysorlys gan CIPFA yn gofyn i'r Dangosydd Darbodus ynglŷn ag aeddfedrwydd Benthyciadau Tymor Hir i ddefnyddio'r dyddiad cynharach y gallai'r benthyciwr gofyn am ad-daliad, h.y. y dyddiad galw nesaf. Mae benthyciadu LOBO y Cyngor wedi ei cynnwys yn y categori '24 mis ac o fewn 5 mlynedd' uchod.

## (e) Gwariant Cyfalaf

Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

| **Gwariant Cyfalaf** | **Amcangyfrif 31/03/14 £m** | **Adolygwyd 31/03/14 £m** | **Gwir 31/03/14 £m** | **Amcangyfrif 31/03/15 £m** | **Amcangyfrif3 1/03/16 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **50.7** | **46.7** | **45.0** | **48.3** | **26.4** |

Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu, a bydd yn cael ei gyllido neu ei ariannu, fel a ganlyn:

| **Cyllido Cyfalaf** | **Awdur-dodwyd 31/03/14 £m** | **Adolyg-wyd 31/03/14 £m** | **Gwir 31/03/14 £m** | **Amcan-gyfrif 31/03/15 £m** | **Amcan-gyfrif 31/03/16 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau cyfalaf | 1.1 | 1.3 | 1.4 | 1.8 | 0.9 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 25.7 | 23.8 | 22.4 | 19.7 | 5.7 |
| Cyfraniadau Refeniw | 13.4 | 11.4 | 10.5 | 10.8 | 5.9 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **40.2** | **36.5** | **34.3** | **32.3** | **12.5** |
| Benthyca wedi'i gefnogi | 4.2 | 4.2 | 4.2 | 6.6 | 6.6 |
| Benthyca heb ei gefnogi | 6.3 | 6.0 | 6.5 | 9.4 | 7.3 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **10.5** | **10.2** | **10.7** | **16.0** | **13.9** |
| **Cyfanswm Cyllido ac Ariannu** | **50.7** | **46.7** | **45.0** | **48.3** | **26.4** |

## (f) Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido llai incwm o fuddsoddiadau.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **Awdurdod-wyd 31/03/14 %** | **Adolyg-wyd 31/03/14** | **Gwir 31/03/14 %** | **Amcan-gyfrif 31/03/15 %** | **Amcan-gyfrif 31/03/2016 %** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **5.24** | **5.84** | **4.86** | **5.59** | **5.78** |

## (g) Mabwysiadu Cod Rheoli Trysorlys CIPFA

Mae’r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion yr arferion gorau.

Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu *Cod Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer 2011* yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011.

## (h) Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod

Pwrpas y terfyn hwn yw ceisio atal y posibilrwydd o golled allai godi os yw’r Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad cynnar o’r symiau a fuddsoddwyd.

| | Awdur-dodwyd 31/03/14 £m | Adolygwyd 31/03/14 £m | Gwir 31/03/14 £m | Awdur-dodwyd 31/03/15 £m | Awdur-dodwyd 31/03/16 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **35.0** | **35.0** | **0.0** | **30.0** | **20.0** |

Ymateb polisi'r Cyngor ers dechrau’r argyfwng credyd yn 2007 yw cadw aeddfedrwydd buddsoddiadau at flwyddyn fel uchafswm. Ni fuddsoddwyd unrhyw brif symiau am gyfnod hwy na 364 diwrnod.

**ATODIAD 3**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| **Statws Credyd Tymor Hir** | **Sgôr** |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |

Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y buddsoddiad. Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y buddsoddiad.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a buddsoddir a'r trothwy isaf cyfradd credyd A- i gwrthbartion buddsoddi.